


Y Cod

Safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg
i geiroprectyddion

Daeth i rym ar 30 Mehefin 2016



**General
Chiropractic
Council**



Amdanom ni

Y Cyngor Ceiriopracteg Cyffredinol yw rheoleiddiwr y proffesiwn ceiropracteg yn y DU. Ein diben cyffredinol yw diogelu'r cyhoedd a'n dyletswydd yw datblygu a rheoleiddio'r proffesiwn ceiropracteg.

Rydym yn gwneud hynny drwy osod safonau addysgol ar gyfer unigolion sy'n hyfforddi i ddod yn geiropactyddion drwy osod safonau o ymddygiad ac ymarfer proffesiynol ar gyfer ceiropractyddion sy'n ymarfer.

Mae'n rhaid i bob un yn y DU sy'n galw ei hunan yn geiropactydd fod wedi cofrestru gyda ni. I gofrestru gyda ni, mae'n rhaid i'r person fodloni'r gofynion addysgol ar gyfer cofrestru a bod yn addas i ymarfer, hynny yw, bod â'r sgiliau a'r wybodaeth, bod mewn iechyd da a bod â chymeriad sy'n gallu ymarfer y proffesiwn yn ddiogel ac yn effeithiol.

Rydym wedi sefydlu prosesau clir a thryloyw ar gyfer ymchwilio a gweithredu'n briodol yn erbyn ceiropractyddion yr honnir nad ydyn nhw'n addas i ymarfer oherwydd problemau iechyd personol, perfformiad anfedrus neu ymddygiad proffesiynol annerbyniol. Gallai methiant difrifol i ddilyn y Cod a'r Canllawiau sydd wedi'u cyflwyno gennym ni arwain at ddiddymu ceiropractydd oddi ar ein cofrestr a'i wahardd rhag ymarfer fel ceiropractydd yn y DU.

Mae'n bwysig nodi y dylai pob darlennydd ddehongli'r Cod hwn yn yr ysbryd y cafodd ei baratoi: ni fydd toriad anfwriadol neu fychan o'r safonau yn arwain nac yn golygu, yn awtomatig, y cynhelir ymchwiliad Addasrwydd i Ymarfer gan y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol.

Mae rhoi iechyd y claf yn gyntaf yn egwyddor bwysig i bobl broffesiynol ac mae hynny, o ganlyniad, yn hyrwyddo ac yn annog ymddiriedaeth. Mae'r Cod yn dangos disgwyliadau cleifion ac yna yr egwyddorion a safonau: gyda'i gilydd, mae'r rhain yn gwneud yn glir beth yw ceiropracteg da.

Cynnwys

6	Cyflwyniad
7	Nodyn Pwysig ynghylch y Canllawiau
8	Disgwyliadau cleifion a'r cyhoedd ynghylch ceiropractyddion cofrestredig
11	Egwyddorion
12	Egwyddor A: Roi diddordebau iechyd cleifion yn gyntaf
13	Safonau (A)
14	Egwyddor B: Ymddwyn yn onest ac yn ddidwyll a chynnal y safonau uchaf o ymddygiad proffesiynol a phersonol
15	Safonau (B)
16	Egwyddor C: Darparu safon dda o ofal ac ymarfer clinigol
17	Safonau (C)
18	Egwyddor D: Sefydlu a chynnal perthynas broffesiynol glir gyda chleifion
19	Safonau (D)
20	Egwyddor E: Cael caniatâd gwybodus ar gyfer pob agwedd o ofal y claf
21	Safonau (E)
22	Egwyddor F: Cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol gyda chleifion, cydweithwyr a phobl broffesiynol eraill ym maes gofal iechyd.
23	Safonau (F)
24	Egwyddor G: Cynnal, datblygu a gweithio o fewn eich gwybodaeth a'ch sgiliau proffesiynol
25	Safonau (G)
26	Egwyddor H: Cynnal a gwarchod gwybodaeth ynghylch cleifion
27	Safonau (H)
28	Geirfa Dermau

Cyflwyniad

Mae'r Cod y mae'r Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol¹ wedi'i baratoi yn gosod y safonau ar gyfer ymddygiad, perfformiad a moeseg ceiropractyddion i sicrhau bod ceiropracteg yn cael ei ymarfer yn gymwys a diogel.

Mae'r Cod yn dangos yr egwyddorion a'r safonau sy'n berthnasol i bob ceiropractydd yn eu dyletswydd fel ymarferwyr gofal iechyd sylfaenol i hyrwyddo iechyd a lles eu cleifion. Mae yna wyth Egwyddor², pob un yn cynnwys nifer o Safonau ynghylch ymarweddiad, ymddygiad a moeseg y mae'n rhaid i bob ceiropractydd eu hymarfer.

Pam mae'r gair "rhaid" yn cael ei ddefnyddio yn y Safonau, mae hynny'n cadarnhau i'r proffesiwn ac yn dangos i'r cyhoedd fod y rhain yn safonau sy'n rhaid eu dilyn. Er y gall ceiropractydd dehongli'r egwyddorion a'r safonau hyn mewn gwahanol sefyllfaoedd ymarfer drwy ymarfer barn broffesiynol, dydyn nhw ddim yn fandadol nac yn ddewisol.

Mae dau ddiben i'r Cod: ei brif ddiben yw helpu ceiropractyddion i gynnal y safonau uchaf o ofal ac ymddygiad. Ei ddiben arall yw ei gwneud yn glir y safon a'r gofal y dylai cleifion, yn rhesymol, ei ddisgwyl oddi wrth geiropractyddion cofrestredig. Mae'r adran o'r enw Disgwyliadau Cleifion wedi'i ysgrifennu ar

gyfer ceiropractyddion. Ond gall cleifion ei defnyddio hefyd i ddeall beth ellir, yn rhesymol, ei ddisgwyl gan y proffesiwn.

Seilir darpariaeth gofal ceiropracteg yn y DU ar broffesiynoldeb. Mae hyn yn gosod ceiropractyddion mewn safle o ymddiriedaeth wrth ymarfer, sy'n cael ei ennill drwy addysg, profiad a darparu gofal effeithiol ac o ansawdd.

Wrth ymuno â'r gofrestr ac yna wrth adnewyddu eu gofrestrriad mae ceiropractyddion yn ymrwmo i gynnal y safonau hyn ac i ddal ati gyda'u datblygiad proffesiynol. Mae hyn yn amod sylfaenol proffesiwn sy'n cael ei reoleiddio. Proffesiynoldeb yw'r thema greiddiol drwy'r Cod.

Nid yn unig mae ymarferwyr iechyd proffesiynol yn darparu gofal diogel, effeithiol a chydymdeimladol o ansawdd da ond maen nhw hefyd yn sicrhau bod eu hymddygiad y tu allan i'r gwaith yr un mor broffesiynol. Bwriedir i'r safonau yn y Cod hwn fod o gymorth gyda'r amcan honno.

Mae gan bob ceiropractydd gyfrifoldeb i gyfarfod â'r safonau hyn ac i gymhwysu'r egwyddorion moesegol sy'n sail iddyn nhw wrth osod iechyd a lles eu cleifion yn ganolog i'w gwaith.

¹ Yn ôl gofyn Deddf Ceiropracteg 1994. Mae'r Cod yn cynnwys safon medrusrwydd a safonau ymddygiad ac ymarfer.

² Mae pob un o'r wyth egwyddor mor bwysig â'i gilydd a heb eu rhestru yn nhrefn eu blaenoriaeth.

Nodyn pwysig ynghylch y canllawiau

Mae'r Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol yn paratoi canllawiau atodol ar wahân i gynnig cymorth defnyddiol ac adeiladol i geiroprectyddion ddilyn y Cod wrth ymarfer. Nid yw'r canllawiau'n holl gynhwysfawr a bydd pob un yn cael ei ddiweddarau o dro i dro.

Mae'r canllawiau ar gael ar wefan y Cyngor ar:
www.gcc-uk.org


Dyma hefyd lle mae'r ddeddfwriaeth bresennol a pherthnasol yn cael ei gasglu mewn dogfen gyfeiriol. Mae'n rhaid gweithredu'r safonau ynghylch ymddygiad, perfformiad a moeseg yng nghydestun deddfwriaeth ynghylch cleifion fel unigolion, er enghraifft, diogelu data, cydraddoldeb, hawliau dynol ayb.

Er mwyn bod â'r wybodaeth ddiweddaraf, fel y mae'r Safonau a'r Cod yn mynnu, mae'n rhaid i geiroprectyddion adolygu a chyfeirio at y canllawiau'n rheolaidd.

Mae'n rhaid i geiroprectyddion dalu sylw i'r canllawiau, defnyddio eu barn broffesiynol, dangos craffter bob amser a chyfiawnhau unrhyw benderfyniad nad yw'n cyd-fynd â'r canllawiau. Bydd y gofynion hyn yn cael eu gwneud yn glir bob tro mae canllaw'n cael ei gyhoeddi.

Disgwyliadau cleifion a'r cyhoedd o geiroprectyddion

Sicrhau fod cleifion yn deall ac yn cymryd rhan eu hunain yn eu gofal yw un o themâu allweddol, sylfaenol, ymddygiad proffesiynol ceiroprectyddion.



	<p>Mae cleifion yn disgwyl, yn rhesymol, i geiropractyddion:</p>
Roddi diddordebau iechyd cleifion yn gyntaf	<p>Wrando ar gleifion a thalu sylw i'w dymuniadau a'u pryderon.</p> <p>Trin cleifion fel unigolion gyda pharch ac urddas at eu gwerthoedd a'u diwylliant.</p> <p>Bod yn ddibynadwy ac yn gyfrifol a diogelu cleifion rhag niwed.</p> <p>Gofalu am gleifion mewn lle glân a diogel.</p>
Ymddwyn yn onest ac yn ddidwyll a chynnal y safonau uchaf o ymddygiad proffesiynol a phersonol	<p>Bod yn briodol gymwys, gofrestredig ac yswiriedig.</p> <p>Ystyried pob agwedd o iechyd a lles cleifion a rhoi gofal sy'n briodol ar gyfer anghenion y cleifion.</p> <p>Bod yn onest gyda chleifion a gweithredu i ddatrys problemau os bydd rhywbeth yn mynd o'i le.</p> <p>Bod yn broffesiynol bob amser a chadw'n gaeth at gyfrinachedd cleifion.</p>
Darparu safon dda o ofal ac ymarfer clinigol	<p>Awgrymu dim ond gofal yn seiliedig ar y dystiolaeth fwyaf addas sy'n cyfarfod â dewisiadau'r claf</p> <p>Rhoi'r gorau i ofal os bydd y claf yn gofyn, neu os mai dyna fyddai orau i'r claf, ac awgrymu ffurfiau eraill o ofal neu driniaeth gan bobl broffesiynol gofal iechyd eraill.</p> <p>Cynnal unrhyw asesiad gofal, neu weinyddu gofal, yn ôl y gofyn yn unol â safonau uchaf y proffesiwn tra'n cadw at y safonau rheolaethol perthnasol.</p> <p>Adolygu ac ail asesu effeithiolrwydd cynlluniau gofal a chyflwyno gwybodaeth i gleifion ynghylch y gofal y maen nhw'n ei gael.</p>
Sefydlu a chynnal perthynas gyda chleifion torri.	<p>Dilyn y canllawiau gofal iechyd proffesiynol clir presennol ynghylch ffiniau rhywiol a pheidio â'u</p> <p>Sicrhau fod y berthynas broffesiynol yn canolbwyntio ar gyfarfod ag anghenion iechyd cleifion.</p>

Disgwyliadau cleifion a'r cyhoedd o geiroprectyddion

parhad

Cael caniatâd gwybodus

Gofyn am ganiatâd i'r gofal cyn bod y gofal hwnnw'n cychwyn a gwneud yn siŵr fod cleifion yn dal eu roi eu caniatâd i'w hasesiadau a'u gofal.

Darparu gwybodaeth gywir, berthnasol a chliir er mwyn gallu cymryd penderfyniadau gwybodus.

Gofyn, bob amser, am ganiatâd y claf pan fydd yn rhaid symud neu dynnu rhai dillad er mwyn archwilio neu ddarparu gofal.

Cael caniatâd y claf cyn rhannu gwybodaeth bersonol gyda thrydydd partïon os bydd hynny'n rhan o gyfrifoldebau proffesiynol.

Cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol gyda

Talu sylw i anghenion a dewis cleifion wrth gyfathrebu

chleifion, cydweithwyr a phobl broffesiynol gofal iechyd eraill

Egluro'n glir beth all cleifion ei ddisgwyl o ofal, y canlyniadau tebygol ac unrhyw risg neu fanteision.

Gwrando a gweithredu ar unrhyw gŵyn gan gleifion.

Cyfeirio at, neu chwilio am arbenigedd oddi wrth geiroprectyddion neu bobl gofal iechyd proffesiynol eraill, yn ôl y gofyn.

Cynnal, datblygu a gweithio fewn eich gwybodaeth sgiliau proffesiynol

Cynnal a diweddarw eich gwybodaeth a'ch sgiliau o proffesiynol drwy eich oes waith fel ceiropractydd a'ch cofrestredig

Ymgynghori gyda cheiroprectyddion neu bobl broffesiynol gofal iechyd eraill yn ôl y gofyn.

Sicrhau nad ydych chi nac eraill sy'n gweithio gyda chleifion yn mynd y tu hwn i'ch gwybodaeth, sgiliau na'ch profiad.


Cynnal a diogelu gwybodaeth cleifion

Sicrhau fod cofnodion cleifion yn gyfredol yn gywir ac yn ddealladwy.

Cadw manylion personol yn gyfrinachol ond hysbysu cleifion os bydd unrhyw dor cyfrinachedd.


Cadw eu cofnodion yn ddiogel ond bod eu cofnodion ar gael iddyn nhw yn ôl y gofyn ac yn ôl gofynion cyfreithiol.

Cadw at safonau'r Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol a darllen holl Ganllawiau'r Cyngor



Y Côd

Egwyddorion



Fel ceiropractydd, mae'n rhaid i chi:

- A Roi diddordebau iechyd cleifion yn gyntaf
- B Ymddwyn yn onest ac yn ddidwyll a chynnal y safonau uchaf o ymddygiad proffesiynol a phersonol
- C Darparu safon dda o ofal ac ymarfer clinigol
- D Sefydlu a chynnal perthynas broffesiynol glir gyda chleifion
- E Cael caniatâd gwybodus ar gyfer pob agwedd o ofal y claf
- F Cyfathrebu'n gywir ac yn effeithiol gyda chleifion, cydweithwyr a phobl broffesiynol gofal iechyd eraill.
- G Cynnal, datblygu a gweithio o fewn eich gwybodaeth a'ch sgiliau proffesiynol
- H Cynnal a gwarchod gwybodaeth ynghylch cleifion

Egwyddor

Roi diddordebau iechyd
cleifion yn gyntaf

A

Mae'n rhaid i chi roi iechyd cleifion yn gyntaf, eu parchu a sicrhau eich bod yn hyrwyddo eu hiechyd a'u lles bob amser.

Mae'n rhaid i chi dalu sylw i'r ffactorau hyn wrth eu hasesu, eu cyfeirio neu wrth ddarparu neu drefnu gofal. Mae'n rhaid i chi ofalu fod y rhai sy'n derbyn gofal yn cael eu trin â pharch, fod eu hawliau'n cael eu cydnabod a bod unrhyw agweddau ac ymddygiad gwahaniaethol yn cael eu herio.

Safonau

Mae'n rhaid i chi:

- A1 ddangos parch, cydymdeimlad a gofal at eich cleifion drwy wrando arnyn nhw a chydabod eu barn a'u penderfyniadau. Rhaid i chi beidio â rhoi unrhyw bwysau ar glaf i dderbyn eich cyngor.
- A2 parchu preifatrwydd, urddas a gwahaniaethau diwylliannol cleifion a'u hawliau yn ôl y gyfraith.
- A3 gweithredu'n briodol os oes gennych chi unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion.
- A4 trin cleifion yn deg heb wahaniaethu a chydabod amrywiaeth a dewis unigol.
- A5 rhoi blaenoriaeth i iechyd a lles cleifion bob amser wrth gynnal asesiadau, gwneud cyfeiriadau neu ddarparu neu drefnu gofal. Parchu hawl cleifion i ail farn.
- A6 trin cleifion mewn lle glanwaith a diogel.
- A7 sicrhau diogelwch a lles plant ac oedolion bregus. Fel person proffesiynol, mae'n rhaid i chi gyflawni eich dyletswyddau cyfreithiol os ydych yn amau fod plentyn neu oedolyn bregus mewn perygl o gam-drin neu esgeulustod drwy ddilyn gweithdrefnau lleol cydnabyddedig ar gyfer riportio'r amheuaeth honno.


Egwyddor

Ymddwyn yn onest ac yn ddidwyll a chynnal y safonau uchaf o ymddygiad proffesiynol a phersonol

B

Mae'n rhaid i chi ymddwyn yn onest ac yn ddidwyll bob amser a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad proffesiynol a phersonol i ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd yn y proffesiwn. Mae'n rhaid i chi gael eich arwain yn eich ymddygiad a'ch ymarfer bob amser gan yr egwyddor mai iechyd a lles y claf sy'n dod yn gyntaf. Mae'n rhaid i chi ddilyn gweithdrefnau sy'n cael eu gosod gan y rheoleiddiwr.

Safonau



Y Côt

Mae'n rhaid i chi:

- B1 ddiogelu cleifion a chydweithwyr rhag niwed os yw eich iechyd, eich ymddygiad neu eich perfformiad chi neu berson proffesiynol gofal iechyd sy'n cael ei reoleiddio, yn peryglu cleifion.
- B2 sicrhau eich bod chi, ac unrhyw geiropactydd sydd â chontract i weithio gyda chi, yn briodol gymwys, gofrestredig ac yswiriedig.
- B3 defnyddio gwybodaeth onest, gyfreithlon a dilysadwy wrth baratoi eich deunydd cyhoeddusrwydd chi eich hunan fel ceiropactydd ac wrth hysbysebu eich gwaith a / neu eich practis ar eich gwefan. Mae'n rhaid i'r wybodaeth gydymffurfio â phob safon reolaethol.
- B4 cynnal yn llym gyfrinachedd cleifion wrth gyfathrebu'n gyhoeddus neu'n breifat, gan gynnwys unrhyw ffurf ar gyfyngau cymdeithasol neu wrth siarad neu ysgrifennu ar y cyfryngau.
- B5 sicrhau fod eich ymddygiad yn broffesiynol bob amser, gan gynnwys y tu allan i'r gweithle, ac felly gynnal ac amddiffyn enw da a hyder yn y proffesiwn a chyfiawnhau hyder cleifion.
- B6 peidio rhoi unrhyw bwysau ariannol amhriodol ar glaf i ymrwymo i unrhyw driniaeth tymor hir nad oes cyfiawnhad iddi.
- B7 bodloni unrhyw ddyletswydd o ddiffuantrwydd drwy fod yn agored a gonest gyda phob claf. Mae'n rhaid i chi roi gwybod i glaf os bydd rhywbeth yn mynd o'i le gyda'i ofal sy'n achosi, neu a allai achosi, niwed neu drallod. Mae'n rhaid i chi gynnig ymddiheuro, neu unioni neu gefnogi, a hefyd egluro yr hyn a ddigwyddodd.
- B8 cyfiawnhau a chofnodi eich rhesymau dros un ai wrthod gofal neu orffen gofal i glaf. Mae'n rhaid i chi egluro, mewn ffordd deg a diduedd, sut y gallen nhw ganfod pobl broffesiynol gofal iechyd eraill a allai fod yn gallu cynnig gofal.
- B9 dilyn gweithdrefnau ar gyfer hysbysu'r Cyngor Ceiropacteg Cyffredinol os bydd cyhuddiadau troseddol yn cael eu dwyn yn eich erbyn neu os oes canfyddiad rheolaethol wedi'i wneud yn eich erbyn un unrhyw le yn y byd. Mae'n rhaid i chi gydweithredu a'r Cyngor Ceiropacteg Cyffredinol pan ofynnir am wybodaeth.


Egwyddor

Darparu safon dda o ofal ac ymarfer clinigol

C

Mae'n rhaid i chi gynnal safonau uchel y proffesiwn ceiropracteg drwy ddarparu gofal diogel a chymwys i bob claf. Mae hyn yn berthnasol i bob agwedd o ymarfer clinigol a gofal cleifion.

Safonau



Mae'n rhaid i chi:

- C1 Gael a chofnodi hanes achos pob claf, gan ddefnyddio dulliau addas i ganfod yr wybodaeth angenrheidiol.
- C2 wrth archwilio cleifion yn gorfforol, defnyddio dulliau a theclynnau diagnostig sy'n talu sylw dyledus i'w hiechyd a'u hurddas. Mae'n rhaid i chi gofnodi canlyniadau'r archwiliadau yng nghofnodion y cleifion a'u hegluro'n llawn wrthyn nhw.
- C3 defnyddio canlyniadau'ch asesiad clinigol o bob claf i gyrraedd diagnosis gweithredol neu sail resymegol o ofal mae'n rhaid i chi ei chofnodi. Mae'n rhaid i chi roi gwybodaeth lawn i bob claf.
- C4 datblygu, gweithredu a chofnodi cynlluniau gofal gyda chytundeb llawn y cleifion. Mae'n rhaid i chi gadw golwg ar effeithiolrwydd y gofal ac adolygu'r cynlluniau gofal yn ôl y gofyn. Mae'n rhaid cynnal ail asesiad mwy ffurfiol o effeithiolrwydd y cynlluniau gofal ar ysbeidiau sy'n addas i'r cleifion a'u hanghenion. Rhaid trafod a chytuno pob newid dilynol i'r cynlluniau gofal gyda'r cleifion a'u cofnodi'n briodol.
- C5 dewis a gweithredu'r gofal ar sail tystiolaeth briodol sy'n cyfarfod â dewisiadau'r cleifion ar y pryd.
- C6 dod â'r gofal, neu agweddau o ofal, i ben, os dyna yw dymuniad claf, neu os, yn eich barn broffesiynol chi, na fydd y gofal yn effeithiol, neu os, wrth adolygu, y byddai o fudd i'r claf ei atal. Mae'n rhaid i chi gyfeirio claf at berson gofal iechyd proffesiynol arall pan fo hynny er budd y claf.
- C7 dilyn y gweithdrefnau cyfeirio priodol wrth gyfeirio neu pan fydd cleifion yn cael eu cyfeirio atoch chi; mae'n rhaid i hynny gynnwys dal i gyflwyno gwybodaeth i'r person gofal iechyd proffesiynol sy'n cyfeirio. Mae'n rhaid i chi gael caniatâd y claf i wneud hynny.
- C8 sicrhau bod archwiliadau, os bydd rhai'n cael eu cynnal, er budd gorau ac o'r risg lleiaf i gleifion. Rhaid cael caniatâd bob tro cyn archwilio cleifion.
Mae'n rhaid i chi gofnodi'r rhesymeg dros, a chanlyniadau, pob un archwiliad. Mae'n rhaid i chi gadw at yr holl safonau rheolaethol sy'n berthnasol i'r archwiliad pan fyddwch yn ei berfformio.
- C9 sicrhau fod pob offer a ddefnyddir yn eich practis yn ddiogel ac yn cyfarfod â'r holl safonau rheoleiddio perthnasol.

Egwyddor

Sef
ydl

chynnal perthynas
broffesiynol glir â
chleifion

D

Mae'r berthynas broffesiynol rhwng ceiropractydd a chlaf yn dibynnu ar hyder a gonestrwydd. Eich dyletswydd chi yw cynnal yr ymddiriedaeth a'r hyder hwnnw.

Mae'n rhaid i chi sefydlu a chynnal ffiniau proffesiynol wedi'u diffinio'n glir rhyngoch chi a'ch claf rhag peri dryswch neu niwed ac i ddiogelu lles a diogelwch cleifion a'r rhai sy'n gofalu amdanyn nhw.

Safonau

Mae'n rhaid i chi:

- D1 beidio â chamdefnyddio'r sefyllfa o ymddiriedaeth sydd gennych fel person proffesiynol. Rhaid i chi beidio â chroesi ffiniau rhywiol.
- D2 bod yn broffesiynol pob amser a sicrhau eich bod chi, ac unrhyw staff rydych yn eu cyflogi, yn trin pob claf yn gyfartal a chyda pharch ac urddas.
- D3 egluro'r rheswm os oes angen i'r claf dynnu rhai dillad ar gyfer archwiliad; os oes angen hynny, mae'n rhaid i chi gynnig lle preifat i dynnu'r dillad a hefyd gynnig gŵn.
- D4 ystyried a ddylid, yn ystod yr asesiadau a gofal, cael person arall yn bresennol fel *chaperone*; yn enwedig os ystyrir fod yr asesiad neu ofal yn agos at fannau preifat y claf os yw'r claf yn blentyn neu'n oedolyn bregus.


Egwyddor

E

Cael caniatâd gwybodus ar gyfer pob agwedd o ofal cleifion

Mae'n rhaid i ganiatâd gan gleifion fod yn wirfoddol ac yn wybodus. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau fod gan gleifion yr holl wybodaeth a'r gefnogaeth y maen nhw ei angen i'w roi. Mae'n rhaid i chi sicrhau, pan fydd amodau gofal cleifion yn newid, eu bod yn dal i roi caniatâd i'r driniaeth. (D.S.: Defnyddir y termau claf neu gleifion gydol yr egwyddor hon ond efallai y bydd yn rhaid cael caniatâd gan gynrychiolydd wedi'i ddewis neu ei benodi ar ran claf)

Standards



Mae'n rhaid i chi:

- E1 rannu gwybodaeth gyda chleifion sy'n gywir, yn berthnasol ac yn glir er mwyn eu galluogi i gymryd penderfyniadau gwybodus ynghylch eu hanghenion iechyd a'u dewisiadau gofal perthnasol. Rhaid i chi hefyd ystyried gallu'r claf unigol i ddeall.
- E2 cael a chofnodi caniatâd gan gleifion cyn dechrau ar eu gofal ac ar gyfer y cynllun gofal.
- E3 cadarnhau bod pob claf yn dal i roi caniatâd i asesiadau a gofal.
- E4 sicrhau bod caniatâd pob claf yn wirfoddol ac nad oes unrhyw fath o bwysau neu ddylanwad gormodol i roi caniatâd.
- E5 gofyn am ganiatâd rhiant cyn y bydd plentyn yn cael ei weld heb unrhyw un arall yn bresennol, oni bai fod y plentyn yn gymwys yn gyfreithiol i gymryd y penderfyniad ei hunan.
- E6 cael caniatâd bob amser os bydd angen, er mwyn archwilio a thrin yn ystod gofal, i chi symud a / neu dynnu eitemau o ddillad claf.
- E7 cael a chofnodi caniatâd penodol (h.y. ar lafar neu'n ysgrifenedig) oddi wrth gleifion ynghylch rhannu gwybodaeth sydd ar eu cofnodion. Rhaid i chi beidio â datgelu gwybodaeth bersonol i drydydd partïon oni bai bod cleifion wedi rhoi caniatâd o flaen llaw i hynny - gweler hefyd H2.


Egwyddor

F

Cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol gyda chleifion, cydweithwyr a phobl broffesiynol gofal iechyd eraill.

Adeiladir y perthynas rhwng ceiropractydd a chlaf ar ymddiriedaeth, hyder a gonestrwydd. Mae'n rhaid i chi gyfathrebu'n effeithiol gyda chleifion er mwyn sefydlu a chynnal perthynas broffesiynol ac annog cleifion i gymryd rôl wybodus yn eu gofal.

Safonau



Mae'n rhaid i chi:

- F1 ystyried y dewisiadau, risgiau a manteision gofal gyda chleifion, gan eu hannog i ofyn cwestiynau. Mae'n rhaid i chi ateb yn llawn ac yn onest, gan gofio nad yw cleifion yn debyg o fod â gwybodaeth glinigol.
- F2 bod â gwybodaeth weladwy a hawdd ei deall i gleifion ynghylch ffioedd, polisiâu prisio a systemau ar gyfer cwyno. Mae'n rhaid i'r polisiâu hynny gynnwys hawl i glaf newid ei feddwl ynghylch gofal a hawl i gyfeirio unrhyw gwynion heb eu datrys at y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol.
- F3 cynnwys pobl broffesiynol gofal iechyd eraill mewn trafodaethau ynghylch gofal cleifion, gyda chaniatâd y cleifion, pe byddai hynny'n golygu diwallu anghenion iechyd y claf yn fwy effeithiol.
- F4 ystyried anghenion a dewisiadau cyfathrebu'r claf.
- F5 gwrando ar, bod yn foesgar ac ystyrllon bob amser gyda chleifion gan gynnwys ynghylch unrhyw gŵyn a allai godi.
- F6 darparu gwybodaeth i gleifion ynghylch pob unigolyn sy'n gyfrifol am eu gofal, gan wahaniaethu os bydd gofyn rhwng y rhai sy'n gyfrifol am agweddau dirprwyedig o'u gofal o ddydd i ddydd. Mae'n rhaid i hynny gynnwys y trefniadau ar gyfer adegau pan nad ydych chi ar gael.

Egwyddor


G

Cynnal, datblygu a gweithio o fewn eich gwybodaeth a'ch sgiliau proffesiynol

Fel person proffesiynol gofal iechyd mae gofyn i chi ddefnyddio'ch barn broffesiynol a gweithio o fewn cyfyngiadau eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch gallu er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a gwarchod enw da'r proffesiwn.

Er mwyn sicrhau eich bod yn dal yn gymwys i ymarfer mae'n rhaid i chi gynnal a datblygu eich gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad proffesiynol yn un ôl â'r gofynion sy'n cael eu gosod gan y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol.

Safonau



Mae'n rhaid i chi:

- G1 ddiweddarau eich gwybodaeth a'ch sgiliau trwy gymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau dysgu a datblygu proffesiynol perthnasol er mwyn cynnal a datblygu'ch cymhwysedd a gwella'ch perfformiad ac ansawdd eich gwaith.
- G2 diweddarau eich gwybodaeth er mwyn sicrhau ei bod yn gyfredol ac yn gywir o ran y gyfraith, y rheoliadau sy'n berthnasol i'ch gwaith ac o ran canllawiau'r Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol.
- G3 sylweddoli a gweithio o fewn cyfyngiadau eich gwybodaeth, sgiliau a gallu.
- G4 gwneud cyfyngiadau eich gallu a'ch gwybodaeth yn glir i gleifion.
- G5 cysylltu â, neu chwilio am arbenigedd oddi wrth, geiroprectyddion neu bobl broffesiynol gofal iechyd eraill yn ôl y gofyn.
- G6 peidio â gofyn i unrhyw un arall i ysgwyddo cyfrifoldebau am asesu a gofalu am gleifion pe byddai hynny y tu hwnt i'w lefel o wybodaeth, sgiliau neu brofiad.

Egwyddor




Cynnal a gwarchod
gwybodaeth ynghylch
cleifion

Eich cyfrifoldeb chi yw cynnal a gwarchod yr wybodaeth rydych yn ei gael yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yng nghwrs eich gwaith. Mae cyfrinachedd yn ganolog i'r berthynas rhwng ceiropractydd a chlaf.

Mae'n rhaid i'r cofnodion rydych yn eu cadw fod yn adlewyrchiad cywir o'r cyfarfyddiad clinigol ac mae'n rhaid cynnwys unrhyw ffactorau perthnasol i ofal parhaus eich cleifion, gan gynnwys eu hiechyd yn gyffredinol.

Safonau



Mae'n rhaid i chi:

- H1 cadw gwybodaeth ynghylch cleifion yn gyfrinachol a pheidio â datgelu eu gwybodaeth bersonol yn amhriodol.
- H2 beidio â datgelu gwybodaeth bersonol heb ganiatâd y claf oni bai bod y gyfraith yn gofyn am hynny.
- H3 sicrhau bod cofnodion eich cleifion yn gyfredol, yn ddarllenadwy, wedi'u priodoli ac yn dangos yn gywir eich ymdriniaeth chi a phob un o'ch cleifion.
- H4 sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel ac mewn cyflwr da. Dylid eu cadw am o leiaf cyfnod sy'n berthnasol yn ôl y gyfraith i oedran y claf.
- H5 gwneud y trefniadau priodol os byddwch yn cau'ch practis neu'n symud clinigau, sicrhau trefniadau priodol pe byddech yn marw.
- H6 sicrhau eich bod yn dal yn gyfriol am gofnodion cleifion, hyd yn oed pan fydd claf wedi symud, oni bai eich bod â chontract i drosglwyddo'r cyfrifoldeb hwn i berson neu i sefydliad gofal iechyd arall.
- H7 gadael i gleifion weld eu cofnodion iechyd personol yn ôl gofynion y gyfraith.

Geirfa Dermau

Gallu	<p>Gallu claf i ddeall, cofio ac ystyried gwybodaeth sy'n cael ei gyflwyno iddyn nhw. Noder: mae'r fframwaith gyfreithiol ar gyfer trin plentyn nad yw'r gallu ganddo i roi caniatâd yn wahanol yng ngwahanol genhedloedd y DU. Mae'n bwysig eich bod yn gweithredu o fewn y gyfraith sy'n berthnasol yn y genedl ble rydych yn ymarfer.</p>
Gofal	<p>Ymyriadau gan geiroprectyddion sydd wedi'u cynllunio i wella iechyd, gan gynnwys hyrwyddo iechyd, cynnal iechyd ac atal iechyd gwael a thalu sylw i anghenion iechyd. Mae'r dulliau y gellid eu defnyddio'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">- triniaethau gyda llaw- defnyddio technolegau eraill – er enghraifft, uwchsain, tyniant, ymarferion ymlacio, gosod pecynnau poeth ac oer, nodwyddo sych- cyngor, eglurhad a sicrwydd - er enghraifft, egluro'r mathau o weithgaredd ac ymddygiad a fydd yn hyrwyddo adferiad, rhoi cyngor ar faeth a diet- ymarfer corff ac ail sefydlu- Dulliau aml ddisgyblaeth – er enghraifft, gyda phobl broffesiynol gofal iechyd eraill, cyfeirio a pharatoi cynlluniau gofal ar y cyd.- cefnogi iechyd a lles cleifion gyda gofalwyr a rhanddeiliaid eraill – er enghraifft perthnasau, cyflogwyr- mesurau ataliol yn gysylltiedig ffordd o fyw cleifion- er enghraifft, bwyta, ymarfer corff, rheoli stres- mesurau ataliol yn gysylltiedig ag amgylchedd cleifion – er enghraifft, y cartref, gweithle- hyrwyddo iechyd a lles – er enghraifft, defnyddio dulliau newid ymddygiad.
Gofalwr	<p>Person o unrhyw oed, yn oedolyn neu blentyn, sy'n darparu cefnogaeth i bartner, plentyn, perthynas neu ffrind nad yw'n gallu byw'n annibynnol neu y byddai eu hiechyd neu eu lles yn dirywio heb y cymorth hwnnw.</p>
Hanes achos	<p>Adroddiad manwl o hanes person sy'n ganoliad i gael gwybodaeth trwy gyfweiliad, holiaduron ac asesu gwybodaeth feddygol.</p>
Chaperone	<p>Person sy'n bresennol yn ystod cyfarfod proffesiynol rhwng ceiropractydd a chlaf, e.e. perthnasau, gofalwyr, cynrychiolydd neu aelod arall o'r tîm gofal iechyd.</p>

Plentyn	Mae gan Gymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban eu canllawiau eu hunain ar gyfer sefydliadau i gadw plant yn ddiogel. Maen nhw i gyd yn cytuno mai plentyn yw unrhyw un o dan 18 mlwydd oed (Fel arfer person ifanc yw un sy'n 16 mlwydd oed neu hŷn).
Asesiad Clinigol	Gwerthusiad gan geiroprectydd o salwch neu gyflwr yn seiliedig ar adroddiad y claf ar ei iechyd ei hunan (sef lles corfforol, seicolegol a chymdeithasol), y symptomau, cwrs neu gyflwr y salwch ynghyd â chanfyddiadau gwrthrychol gan gynnwys archwiliad, profion labordy, delweddau diagnostig, hanes meddygol a gwybodaeth gan berthnasau a / neu ofalwyr a phobl gofal iechyd proffesiynol eraill.
Caniatâd	Derbyniad gan glaf o ymyrraeth glinigol arfaethedig ar ôl cael gwybod, cyn belled ag y gellir yn rhesymol disgwyl, yr holl ffactorau perthnasol i'r ymyrraeth honno.
Datblygu Proffesiynol Parhaus	Yn golygu'r modd mae aelodau'r proffesiwn yn cynnal, gwella ac ehangu'u gwybodaeth a'u sgiliau ac yn datblygu'r rhinweddau personol sydd eu hangen yn eu bywydau proffesiynol. Bydd y modd yn cael ei egluro ar wefan y Cyngor Ceiroprecteg Cyffredinol ac yn cael ei ddiweddarau o dro i dro.
Dirprwyo	Gofyn i rywun arall ddarparu gofal ar ran ceiroprectydd.
Offer	Teclynnau, offer, dyfeisiadau, defnyddiau neu rywbeth arall sy'n cael ei ddefnyddio ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad, gan gynnwys y feddalwedd sydd ei hangen i'w cael i weithio, y bwriada'r gweithgynhyrhydd iddyn nhw gael eu defnyddio ar fodau dynol.
Gofal yn seiliedig ar dystiolaeth	Ymarfer clinigol, sy'n cynnwys y dystiolaeth orau sydd ar gael, ynghylch gofal yn tarddu o ymchwil, arbenigedd y ceiroprectydd a dewis y claf.
Iechyd	Cyflwr o les corfforol, meddyliol a chymdeithasol cyflawn, nid absenoldeb haint neu fusgrellder yn unig (<i>Sefydliad Iechyd y Byd</i>).
Ymchwiliad	Astudiaeth glinigol sy'n cyfrannu at asesu cleifion, gallai gynnwys technoleg ddelweddu ddiagnostig, systemau archwilio a phroffion labordy.
Gweithdrefnau lleol	Trefniadau, wedi'u datblygu a'u cyhoeddi gan awdurdodau lleol ledled y DU, i reoli cyfeiriadau ac asesiadau ar gyfer blant neu bobl fregus.

Rhaid	Mae hyn yn golygu fod y dyletswydd sy'n cael ei ddangos yn y safon yn orfodol.
Cleifion	Unigolion sydd wedi cael cyngor neu asesiad a / neu ofal clinigol gan geiropactydd. <i>Defnyddiwyd y gair 'claf' i arbed lle a bwriedir iddo olygu'r holl dermau cysylltiedig y gellid eu defnyddio megis 'cleient' neu 'defnyddiwr gwasanaeth'.</i>
Hawliau cleifion	Y safonau o ran perfformiad, moeseg ac ymddygiad y mae'n rhaid eu defnyddio yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth bresennol a'i holnydd sy'n benodol i gleifion fel unigolion - rhestrir y Deddfau perthnasol presennol yn y ddogfen gyfeiriol ar wefan y Cyngor Ceiropacteg Cyfôledinol o dan cyhoeddiadau.
Cyfrinachedd cleifion	Hawl unigolion i gael cadw gwybodaeth yn eu cylch yn breifat.
Archwilio cleifion	Asesiad clinigol o gleifion gyda'r bwriad o gyrraedd, neu adolygu, y rhesymeg dros ofal.
Cynllun gofal	Protocol trin wedi'i baratoi i ddarparu buddion therapiwtig i gleifion ar ôl asesiad clinigol.
Rhesymeg gofal	Rhesymau pam fod ceiropactyddion yn darparu triniaeth i gleifion
Ailasesiad	Adolygiad ffurfiol o effaith y driniaeth, a ddylid ei newid neu a ddylid cyfeirio'r claf at berson proffesiynol gofal iechyd arall.
Cofnod	Dogfen yn cynnwys gwybodaeth bersonol a gwybodaeth ynghylch yr asesiad clinigol a'r diagnosis gweithredol neu resymeg gofal ar gyfer gofalu am glaf. Fel arfer, dylai gynnwys: canfyddiadau clinigol perthnasol, y penderfyniadau a wnaed, yr hyn a gytunwyd, enwau'r rhai oedd â rhan yn y penderfyniadau a'r cytundebau, gwybodaeth a gafwyd gan y claf ac enw'r person oedd yn creu'r cofnod.
Cyfeirio cymhwysedd y	Trosoglwyddo cyfrifoldeb am ofal i drydydd parti ar gyfer diben penodol, megis ymchwiliadau ychwanegol, gofal neu driniaeth bellach nad yw o fewn ceiropactydd.
Cynrychiolydd"	Person a ddewisir neu a benodir i weithredu neu siarad ar ran claf
Diagnosis weithredol	Penderfyniad ymarferol sy'n cael ei adolygu'r barhaus.

Y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol
44 Wicklow Street
Llundain WC1X 9HL
Ffôn 020 7713 5155
Ffacs 020 7713 5844
E enquiries@gcc-uk.org
www.gcc-uk.org

